## Mae strwythur 'TAG Iau' cyntaf y DU yn dod i'r Rhyl y Gwanwyn nesaf

Mae SC2, y parc dŵr ac ardal antur newydd sy'n dod i Ogledd Cymru flwyddyn nesaf, yn falch o gyhoeddi, ynghyd â'r arena TAG Active, bydd strwythur TAG Iau cyntaf o'i fath yn y DU yn dod i'r Rhyl.

Mae TAG Iau yn gwrs antur gydag ardaloedd amrywiol, sy'n debyg i'r prif strwythur TAG, fodd bynnag mae hwn ar gyfer plant 5 i 8 oed yn unig a bydd yn herio chwaraewyr iau i brofi eu strategaeth, cyflymder, ystwythder a dewder eu hunain, wrth hybu hwyl, ffitrwydd a chystadleuaeth.

Mae'r ddau strwythur yn ffurfio'r arena TAG Actif cyflawn sy'n cael ei adeiladu yn SC2 ar hyn o bryd, y parc dŵr a chanolfan antur £15m newydd ar bromenâd y Rhyl, sy'n agor ar 5 Ebrill y flwyddyn nesaf.

Bydd chwaraewyr yn gwisgo bandiau arddwrn electronig wrth gyflawni'r cwrs llawn egni, gyda dros 40 o dargedau i'w taro ar wyth lefel, sy'n gyfuniad o *Ninja Warrior* a *Total Wipeout.*

Nod TAG Iau a TAG Active yw taro targedau cyfrifiadurol ar draws nifer o lefelau a chystadlu am amser a thargedau yn erbyn ffrindiau a chydweithwyr, neu guro eich sgôr eich hunain, gan ddarparu profiad unigryw i oedolion a phlant ar arfordir Gogledd Cymru.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans OBE: "Rydym yn falch bod cymaint o gyffro ac edrych ymlaen at agoriad SC2 ac rydym yn gyffrous iawn i agor TAG Iau cyntaf y DU yn y Rhyl. Bydd yn atyniad o'r radd flaenaf ar gyfer arfordir Gogledd Cymru gyfan."

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James: "Mae cyffro mawr o ran yr ardal TAG Active, yn ogystal â SC2 yn gyffredinol. Mae hwn yn rhywbeth nad yw'r ardal erioed wedi ei weld o'r blaen, ac rydym yn falch ei fod yn dod i'r Rhyl. Mae'n sicr o fod yn atyniad mawr i ymwelwyr a phreswylwyr.

Dywedodd Jim Jones, MD Twristiaeth Gogledd Cymru: "Heb unrhyw amheuaeth, mae SC2 yn ddatblygiad anhygoel i'r Rhyl, mae'n hwb anferth arall i'n heconomi twristiaeth ac eto'n dangos hyder Gogledd Cymru fel cyrchfan i fuddsoddi ynddi. Mae TAG Iau cyntaf yn y DU wedi ei anelu yn union at y targed farchnad yr ydym am ddarparu ar ei gyfer. Mae twristiaeth werth dros £3 biliwn i Economi Gogledd Cymru a gydag atyniadau fel hyn yn cael eu datblygu, rhagwelir y bydd hynny'n cynyddu ymhellach ar gyfer Sir Ddinbych a Gogledd Cymru."

Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â www.sc2yrhyl.co.uk neu ymwelwch â'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Bydd prisiau tocynnau llawn ar werth yn gynnar ym mis Ionawr 2019.